Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl
CYMRU GYFAN
ALL WALES
Mental Health Promotion Network

CYNHADLEDD FLYNYDDOL 2009

Prifysgol Glyndŵr
Wrecsam
Dydd Mercher, 21 Hydref 2009

'Dirwasgiad, Cadernid a Dyfeisgarwch: Bygythiadau a Chyfleoedd ar gyfer Lles Meddwl'

Mae'n bleser gan Rwydwaith Hybu Iechyd Cymru Gyfan gyhoeddi ei drydedd cynhadledd flynyddol. Bydd y gynhadledd hon yn archwilio'r effaith y gall y dirwasgiad ei gael ar iechyd meddwl a'r cyfle i hyrwyddo lles meddwl a hyrwyddo cadernid unigol a chymunedol.

Mae'r gynhadledd yn briodol ar gyfer aelodau presennol o'r Rhwydwaith ac unrhyw un sy'n gyfrifol am, neu â diddordeb mewn hybu iechyd meddwl y cyhoedd.

Nod y gynhadledd yw rhoi mynediad i dystiolaeth yn ymwneud â'r thema a hyrwyddo arfer da. Bydd y digwyddiad yn cynnwys ystod o gyflwyniadau wedi eu dilyn gan weithdai ar draws meysydd: rhianta a'r blynyddoedd cynnar; plant a phobl ifanc, cymunedau, cyflogaeth, pobl hŷn a chynhwysiant a galluogrwydd ariannol.

Nod digwyddiadau'r rhwydwaith yw i:

- Ddarparu fforwm ar gyfer dysgu
- Rhoi cyfle i aelodau o'r rhwydwaith rannu syniadau
- Darparu fforwm i aelodau o'r rhwydwaith sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau gydag eraill o sefydliadau a sectorau gwahanol
- Sefydlu cysylltiadau rhwng tystiolaeth ac ymarfer
- Annog cyfranogwyr nad ydynt yn aelodau eto i ymuno â'r rhwydwaith
- Defnyddio profiad a gwybodaeth aelodau'r rhwydwaith ac eraill i helpu i lywio polisïau ac ymarfer yn y dyfodol

I gofrestru, llenwch y ffurflen gofrestru a'i dychwelyd ynghyd â siec am £30 yn daladwy i Ganolfan Iechyd Cymru yn mentalhealth@wch.wales.nhs.uk erbyn 25 Medi 2009. Caiff y siec ei dychwelyd i'r cynrychiolwyr pan fyddant yn mynychu'r digwyddiad.

Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl
CYMRU GYFAN
ALL WALES
Mental Health Promotion Network

Health Challenge Wales
Her Iechyd Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl
CYMRU GYFAN
ALL WALES
Mental Health Promotion Network

'Dirwasgiad, Cadernid a Dyfeisgarwch: Bygythiadau a Chyfleoedd ar gyfer Lles Meddwl'

Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Dydd Mercher, 21 Hydref 2009

Eich Manylion	Ffurflen Gofrestru
Teitl	
Enw Cyntaf	
Cyfenw	
Teitl y Swydd	
Sefydliad	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	
Ebost*	
Ffacs	
Unrhyw ofynion arbennig (e.e deiet, mynediad)	
Gofynion laith Gymraeg: Ticiwch os hoffech gael y pecyn cynhadledd a mwy o wybodaeth yn Gymraeg □	Ticiwch os hoffech gyfrannu at y trafodaethau yn Gymraeg □

*Er mwyn datblygu cynaliadwy, anfonir y cyfarwyddiadau ymuno cyn y cyfarfod dros yr ebost. Nodwch a ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth drwy'r post yn y cyfeiriad uchod. □

Datganiad Diogelu Data
Caiff unrhyw ddata personol y byddwch yn ei gyflwyno ei gadw a'i brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Bydd Canolfan Iechyd Cymru yn cadw'r wybodaeth hon er mwyn anfon mwy o wybodaeth atoch am y digwyddiad hwn a gall gweithwyr awdurdodedig Canolfan Iechyd Cymru weld yr wybodaeth. Mae Canolfan Iechyd Cymru hefyd yn dymuno cynnwys eich enw, teitl eich swydd a'r sefydliad mewn pecyn cynrychiolwyr a gaiff ei ddosbarthu i bawb sy'n mynychu ar y diwrnod.

Ticiwch yma os NAD ydych yn fodlon i Ganolfan Iechyd Cymru wneud hynny.
□ **Nid wyf yn fodlon**

Os NAD ydych yn dymuno i Ganolfan Iechyd Cymru gadw eich manylion cyswllt at ddibenion anfon mwy o wybodaeth atoch yn ymwneud â chynadleddau a digwyddiadau Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, ticiwch yma.
□ **Nid wyf yn dymuno i'm manylion gael eu cadw**

Printiwch eich Enw..... Llofnodwyd .....

Am ymholiadau'n ymwneud â diogelu data, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ffôn: 029 2022 7744 neu dros Ebost: wch@wch.wales.nhs.uk.

Noder: Mae'r lleoedd yn gyfyngedig a chânt eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin. Dim ond os yw'r ffurflenni cofrestru yn cynnwys siec o £30 yn daladwy i Ganolfan Iechyd Cymru y cânt eu derbyn. Caiff y siec ei chyfnewid am arian os nad yw'r cynrychiolwyr yn mynychu'r gynhadledd heb roi gwybod cyn y digwyddiad.

Dylid dychwelyd y ffurflenni cofrestru i: mentalhealth@wch.wales.nhs.uk;
Ffacs: 029 2022 6749; Cyfeiriad: Canolfan Iechyd Cymru, 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ